Post Penalltau

01443 862974
ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk
ysgolpenalltau.com

## Post Penalltau – 02/10/2025


**SCROLL DOWN FOR ENGLISH VERSION**

Annwyl Deuluoedd,

**PAWB**
**Hawliau Plant UNICEF**

**Yr wythnos hon, rydym yn canolbwyntio ar Erthygl 24 o Siarter Hawliau Plant UNICEF.**

Mae’r erthygl hon yn datgan bod gan blant yr hawl i’r safon uchaf o iechyd, ac i gael gofal meddygol pan fo angen. Yn Ysgol Penalltau, rydym yn trafod sut mae iechyd yn golygu mwy na dim ond peidio â bod yn sâl – mae’n cynnwys bwyta’n iach, cael digon o gwsg, ymarfer corff yn rheolaidd, a gofalu am ein lles meddyliol hefyd. Rydym yn annog disgyblion i feddwl am sut mae’r ysgol yn cefnogi eu hiechyd – o fwydlenni’r ffreutur i glybiau chwaraeon, ac o sesiynau lles i amseroedd gorffwys. Mae’n bwysig cofio bod iechyd da yn rhoi’r egni a’r ffocws i ddysgu, tyfu a mwynhau bywyd ysgol.




Os ydych chi eisiau darllen mwy am yr hawl hon i blant, mae adroddiad 2018 gan Gomisiynydd Plant Cymru yn rhoi mwy o fanylion.

https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/Play-FINAL.pdf




**MEITHRIN**

**ATGOF: Ysgol ar Gau i Ddisgyblion y Meithrin oherwydd Is-etholiad Caerffili.**

Oherwydd bod yr ysgol wedi'i neilltuo fel gorsaf bleidleisio ar gyfer is-etholiad y Senedd yn Caerffili sydd ar ddod, bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion y Meithrin ar y **23ain o Hydref 2025**



**PAWB**
ATGOF: Nosweithau Rieni

Byddwn yn cynnal ein nosweithiau rhieni cyntaf y flwyddyn ar 11/11/2025 a 13/11/2025.

Dylech fod wedi derbyn e-bost gan y cyfeiriad e-bost isod yn gofyn i chi sefydlu eich cyfrif rhiant drwy ein gwefan. Os nad ydych wedi ei dderbyn eto, gwiriwch eich ffolder sbam/junk.

support.jw@junipereducation.org

Unwaith y byddwch wedi sefydlu eich cyfrif rhiant, byddwch yn gallu nodi eich slot ar gyfer noson rhieni.

**PAWB - GWYBODAETH YN UNIG**

**Ein Blaenoriaethau Datblygu Ysgol – Rhan 3**
Mae ein trydedd flaenoriaeth strategol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025–2026 yn canolbwyntio ar: **Datblygu Annibyniaeth Plant ymhellach**.

Yn Ysgol Penalltau, rydym yn ymrwymedig i feithrin annibyniaeth ymhlith ein disgyblion drwy wella'r defnydd o'n **Fframwaith Unigryw**, datblygu **ardaloedd darpariaeth dysgu** sy'n annog hunan-gyfeiriadedd, a chynnig **mwy o gyfleoedd dysgu seiliedig ar ymholi**.

Drwy greu amgylcheddau dysgu sy'n annog plant i feddwl drostynt eu hunain, gwneud dewisiadau a datrys problemau, rydym yn eu paratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol. Mae dysgu seiliedig ar ymholi yn rhoi cyfle i blant archwilio syniadau, gofyn cwestiynau a datblygu sgiliau meddwl beirniadol.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau a allai ein helpu neu ein cefnogi i gyflawni pob blaenoriaeth datblygu, nodwch nhw o dan y flaenoriaeth berthnasol drwy'r ddolen isod.

https://docs.google.com/document/d/1z6QJlhScum3UrGrn4jFZq9DiOAcC7Suv/edit?usp=sharing&ouid=115718874925894984022&rtpof=true&sd=true




**BLWYDDYN 5**

**ATGOF: Taliadau Terfynol Abernant yn Ddyledus**

Mae taliadau terfynol **(£114)** ar gyfer taith breswyl Blwyddyn 5 i Abernant (26/01/26–28/01/26) yn ddyledus erbyn **5/11/2025.** Sicrhewch fod eich taliadau terfynol wedi'u talu'n llawn drwy'r swyddfa erbyn y dyddiad hwn. Bydd rhagor o wybodaeth am y daith yn cael ei dosbarthu'n agosach at y dyddi




**Blwyddyn 5 a 6:**

**Sioe Betty Campbell**

6/10/25 – mae cwmni Mewn Cymeriad wedi cysylltu i ddweud bod cyfle arbennig i ddisgyblion 5 a 6 wylio sioe am Betty Campbell ar ddydd Llun nesaf yn neuadd yr ysgol. Oes modd i chi anfon cyfraniad o £2 y plentyn tuag at gost y sioe os gwelwch yn dda?




**Disgyblion Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2:**

4/11/25 – Bydd cyfle i'r dosbarthiadau uchod ymweld â sefydliad y Glowyr Coed Duon i weld sioe'r Sherman, "Biwti a Brogs" ar ddydd Mawrth 4ydd o Dachwedd. Bydd llythyr gyda chost cyfraniad a manylion pellach yn dod allan cyn bo hir.

**ATGOF:** **Blwyddyn 6**

## Gwahoddiad gan / *An Invitation from: Ysgol Gyfun Cwm Rhymni*

Annwyl Rieni/Warchodwyr disgyblion Blwyddyn 6

Fel ysgol, rydym yn ymwybodol iawn bod eleni yn flwyddyn allweddol ym mywyd eich plentyn chi. Rydym hefyd yn ymwybodol eich bod chi fel rhieni a gwarchodwyr ar fin llenwi'ch cais i'r Sir ar gyfer dewis ysgol uwchradd i'ch plentyn. Felly, er mwyn osgoi unrhyw ofidio di-angen ac i gychwyn ar ein cyfathrebu grymus gyda chi fel teuluoedd, mae'n bleser gennym eich gwahodd i Noson Agored ar gyfer rhieni a gwarchodwyr disgyblion Blwyddyn 6. Cynhelir y noson ar **Ddydd Iau, Hydref 2il 2025 ar safle Gelli Haf rhwng 4:30yh a 5:30yh.**

Yn ystod y noson fe fyddwn yn rhannu gwybodaeth bwysig am yr ysgol ac fe fydd cyfle i chi fynd ar daith o amgylch y safle a chwrdd â rhai aelodau o staff. Mae croeso i'ch plentyn fynychu'r noson gyda chi er mwyn iddynt gael cyfle i weld yr ysgol hefyd. Mawr obeithiwn y bydd y noson yma'n tawelu'ch meddyliau chi ac yn ffordd gwych o godi cyffro ymysg y disgyblion am y cam allweddol i fyny i'r ysgol gyfun.

Gobeithiaf y gallwch fynychu ac edrychwn ymlaen at eich gweld a'ch croesawu i'r ysgol.

Yn gywir

Bethan Evans

Arweinydd Pontio



**PAWB**


**Rhai Dyddiadau Pwysig i'ch Dyddiadur**

23/10/2025 – Disgo Calan Gaeaf

6/11/2025 – Noson Sinema Blwyddyn 3-6

11/11/2025 a 13/11/2025 – Noson Rieni

5/12/2025 – Ffair Nadolig




**PAWB**

**Her y Mis – Cyngor Ysgol**

Eleni, bydd system newydd gyda'n heriau teuluol: bydd un her yn dod allan pob mis gan un o'r pwyllgorau. Bydd pwyllgor y Dreigiau yn gosod geirfa i chi bob mis i'ch helpu cwlbhau'r heriau gan ddefnyddio'r Gymraeg. Unwaith bod eich plant wedi cwblhau tair her, bydd cyfle iddyn nhw ddewis llyfr o'r peiriant fendio!

Gweler her gyntaf y flwyddyn gan y Cyngor Ysgol – cofiwch anfon eich syniadau atom ni!

**EVERYONE**
**Children’s Rights**

This week, we are focusing on Article 24 of the UNICEF Children's Rights Charter. This article states that children have the right to the highest attainable standard of health and access to healthcare when needed. At Ysgol Penalltau, we’re exploring how health means more than just not being ill – it includes eating well, getting enough sleep, exercising regularly, and looking after our mental wellbeing too. We’re encouraging pupils to think about how school supports their health – from the canteen menus to sports clubs, and from wellbeing sessions to quiet time. Good health helps us have the energy and focus to learn, grow and enjoy school life.




If you want to read more about this children’s right, a 2018 report by the Children’s Commissioner for Wales gives more details. https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/Play-FINAL.pdf




**NURSERY**
**REMINDER: School Closed to Nursery Pupils Due to Caerphilly By-election.**

As the school has been designated as a polling station for the upcoming Senedd by-election in Caerphilly, the school will be closed to Nursery pupils on **23rd October 2025**.



**EVERYONE**
**REMINDER: Parent Evenings**

We will be holding our first parent evenings of the year on 11/11/2025 and 13/10/2025.

You should have received an email from the below email address asking you to set up your parent account via our website, please check your junk mail you have yet to receive this.

support.jw@junipereducation.org

Once you have set up your parent account you will be able to book your slot for parents evening.

Any issues please do let the school office know

**EVERYONE – Information Sharing Only**
**School Development Priorities – Part 3**

**Our School Development Priorities – Part 3**
Our third strategic priority for the 2025–2026 academic year focuses on: Further Developing Pupil Independence.

At Ysgol Penalltau, we are committed to nurturing independence in our pupils by enhancing the use of our Unique Framework, developing learning provision areas that promote self-direction, and offering more opportunities for inquiry-based learning.

By creating learning environments that encourage children to think for themselves, make choices and solve problems, we are preparing them for life beyond school. Inquiry-based learning allows pupils to explore ideas, ask questions and develop critical thinking skills.
We believe independence is key to confidence, motivation and long-term success.

If you have any suggestions that could help or support us in achieving each development priority, please note them under the relevant priority via the link below.
https://docs.google.com/document/d/1z6QJlhScum3UrGrn4jFZq9DiOAcC7Suv/edit?usp=sharing&ouid=115718874925894984022&rtpof=true&sd=true




**YEAR 5**

**REMINDER: Abernant Final Payments Due**

Final payments **(£114)** for year 5's residential trip to Abernant (26/01/26-28/01/26) are due by **5/11/2025.** Please ensure that your final payments have been payed in full via the office by this date. Further information regarding the trip will be distributed closer to the date.




**Year 5 and 6 Pupils:**

6/10/25 – The theatre company Mewn Cymeriad have contacted us to say that year 5 and 6 pupils have the opportunity to watch a show on Betty Campbell this coming Monday in the school hall. Can we kindly ask for a contribution of £2 a pupil towards the cost of the show please?




**Reception, Year 1 And Year 2 Pupils:**

4/11/25 – The above classes will have the opportunity to see the Sherman show, “Biwti a Brogs” in the Blackwood Miners’ Institute on Tuesday 4th of November. A letter detailing cost contributions will be sent out before long.

**REMINDER**
**Year 6**

**Gwahoddiad gan / *An Invitation from:* *Ysgol Gyfun Cwm Rhymni***

Dear Parents/Guardians of Year 6 pupils

As a school, we’re aware that this is a key year in your child's life. We’re also aware that you’re about to submit your application to the County stating your preferred choice for your child’s secondary school. Therefore, in order to avoid any

unnecessary worry and to commence our robust communication process with you, it is my pleasure to invite you to our Open Evening on Thursday, 2nd October 2025 at the Gelli Haf site between 4:30pm and 5:30pm.

During the evening, we will be sharing important information about the school. There will be an opportunity to have a tour around the school and meet some members of staff. Your children are also welcome to attend so that they can also see our wonderful facilities. We very much hope that this evening will reassure you and be a great way of creating a ‘buzz’ of excitement amongst the pupils regarding their transition to secondary school.

We very much hope that you will be able to attend and look forward to welcoming you to the school.



**EVERYONE**


**Some Important Dates for The Diary**

23/10/2025 – Halloween

6/11/2025 –Cinema Night Year 3-6

11/11/2025 a 13/11/2025 – Parents Evenings

5/12/2025 – Christmas Fair




**EVERYONE**
**Monthly Challenge – School Council**

This year, we have a new system with our family challenges: you will receive one challenge a month from one of school committees. The Dreigiau will give you vocabulary each month to help you complete the challenge using some Welsh. Once your children have completed three challenges, they have the opportunity to choose a book from our Vending machine!

See October's challenge from the school council below – remember to send us your ideas!

**Cysylltiadau pwysig a all fod o ddefnydd i chi / *Important contact details that could be of use to you:***

**Caerphilly Employment Support:** 01443 864227
**Samaritans:** 116 123 (24 awr y dydd / *24 hours a day)*
**Wales Domestic Abuse Helpline:** 0808 80 10 800 (8.00am-2.00pm & 8.00pm-2.00am pob dydd / *every day*).
**Mind Cymru:** 0300 123 3393
**Warm Wales:** 01656747622/ information@warmwales.org.uk
**Childline:** 0800 1111 (24 awr y dydd / *24 hours a day)*
**Women's Aid:** 01495 742061 (24 awr y dydd / *24 hours a day)*
**Eastern Valley Food Bank:** 01495 760605
**National Energy Action Cymru**: 08003047159
**The Rainy Day Trust:** 08009154627/ info@rainydaytrust.org.uk

**Fuel Poverty Action:** contact@fuelpovertyaction.org.uk
**Care & Repair Cymru, 70+ Cymru:** careandrepair.org.uk/get-help/
**Caerphilly Cares**: caerphillycares@caerphilly.gov.uk
**Eco Funding:** 01443 811378

Mae Croeso i chi gysylltu gyda Ysgol Gymraeg Penalltau yn Gymraeg neu Saesneg
You are welcome to contact Ysgol Gymraeg Penalltau in Welsh or English

Cymraeg